

Bwrdd Seinio Partneriaeth Genomeg Cymru (PGC) Ymgynghoriad y Gwanwyn 2025

Gwnaethom gynnal Ymgynghoriad y Gwanwyn ddydd Mercher 2 Ebrill 2025 trwy Microsoft Teams. Dechreuodd y diwrnod gyda'r prif ymgynghoriad ar y pwnc 'cysylltu data genetig ar gyfer ymchwil yng Nghymru', ac wedyn cafwyd diweddariadau gan Fyrddau PGC, a diweddariadau ynglŷn â Rhwydwaith Cyn-fyfyrwyr y Bwrdd Seinio.

Roedd y prynhawn yr un mor orlawn, gan ddechrau gydag ateb *Cwestiynau Cyffredin* ar y Cyfeiriadur Profion, ac wedyn diweddariad ar ddatblygu'r Strategaeth Ymchwil Genomeg ac yn olaf, diweddariadau ar weithgareddau'r rhaglen.

Ymgynghoriad 1 – Cysylltu Data Genetig ar gyfer Ymchwil yng Nghymru

Arweinydd y Sesiwn: Beata Fonferko-Shadrach, Swyddog Ymchwil (Prifysgol Abertawe)

Dolen i'r cyflwyniad: <https://youtu.be/tIG6qib8GVA>

Ymunodd Beata Fonferko-Shadrach â ni i drafod eu hastudiaeth i asesu tegwch a chanlyniadau profion genetig ar gyfer cyflyrau cyffredin yng Nghymru drwy gysylltu data profion genetig ac iechyd.

Dechreuodd y sesiwn gyda'r Bwrdd Seinio'n rhoi adborth ar y darllen ymlaen llaw (crynodeb astudiaeth a Thaflen Wybodaeth i Gleifion) a Beata yn mynd i'r afael â phryderon ac argymhellion yr aelodau.

- Dewiswyd yr amodau penodol a ystyriwyd yn seiliedig ar nifer ar nifer y blynyddoedd y mae'r profion wedi'u darparu gan y gwasanaeth, a nifer y cofnodion sydd ar gael. Mae lle i ychwanegu data o grŵp ehangach o gyflyrau ond mae'r set gychwynnol wedi'i dewis gan fod llawer o ganlyniadau profion ar gyfer y cyflyrau hyn yn y set ddata archifol
- Mae'r daflen wybodaeth yn dechnegol iawn ac yn drwchus. Roedd awgrymiadau gan y Bwrdd Seinio'n cynnwys gwneud y dôn yn un sy'n canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn a defnyddio cwestiynau cyffredin i wneud yr wybodaeth yn fwy treuliadwy. Nododd aelodau'r Bwrdd Seinio y gallai'r manylion technegol yn y daflen wybodaeth wneud i bobl fod eisiau tynnu'n ôl felly mae'n bwysig ei gwneud yn fwy hygyrch, ac esbonio termau technegol yn fanwl
- Mae fersiwn fyrrach o'r daflen wybodaeth sy'n cael ei hanfon at elusennau/grwpiau cymorth sy'n canolbwyntio ar y meysydd iechyd sy'n rhan o'r astudiaeth
- Nid yw'r tîm yn gallu cysylltu â phobl unigol i'w hysbysu am yr astudiaeth hon (a'r opsiwn tynnu'n ôl) ond bydd yr astudiaeth yn cael ei chyhoeddi a'i rhoi ar wefan Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan (GGFCG) ar gyfer prosiectau ymchwil cyfredol gydag e-bost i bobl gysylltu ag ef i dynnu'n ôl. Mae'r tîm hefyd wedi cysylltu ag elusennau a grwpiau cymorth i geisio hysbysu unigolion amdani a sut y gellir rhannu'r astudiaeth yn ehangach
- Nid yw'r tîm yn cysylltu'n benodol â chymunedau na wasanaethir yn ddigonol/cymunedau y mae cyflyrau genetig yn effeithio arnynt neu grwpiau sy'n profi diffyg mynediad, oherwydd cyfyngiadau o ran adnoddau. Fodd bynnag, nod yr astudiaeth yw asesu a oes anghydraddoldeb o ran mynediad at brofion. Y rhagdybiaeth

Bwrdd Seinio Partneriaeth Genomeg Cymru (PGC) Ymgynghoriad y Gwanwyn 2025

yw nad yw gwasanaethau ar gael yn gyfartal o ran statws economaidd-gymdeithasol, ffactorau daearyddol, a rhwystrau iaith

- Bydd yr holl unigolion a gafodd eu profi am y cyflyrau a restrir yn cael eu cynnwys yn yr astudiaeth waeth beth fo'r canlyniadau

Yn dilyn y sesiwn adborth, rhannodd Beata y broses anonymeiddio data arfaethedig gan GGFCG/Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddiennw (CDGDD) gyda'r pwyntiau allweddol canlynol:

- Ni all cleifion dynnu'n ôl pan fo eu data yn CDGDD ond mae'r data yn gwbl ar wahan i'r person. Mae data yn cael ei amgryptio a'i anonymeiddio
- Derbyniodd y tîm ymchwil adborth gan grwpiau perthnasol
- Mae'r ymchwil wedi'i gymeradwyo gan y Grŵp Cyngori ar Gyfrinachedd
- Ni all y tîm gyrraedd grwpiau ethnig penodol ac nid yw'r astudiaeth yn cysylltu ethnigrwydd â data. Byddai angen i hyn fynd trwy ddata'r cyfrifiad sy'n cymryd amser hir ond efallai y gellir ei wneud ar gyfer y Gymraeg

Ar ôl y cyflwyniad, rhannwyd aelodau'r Bwrdd Seinio yn grwpiau trafod i drafod senarios penodol.

Grwpiau Trafod 1 a 2:

Os oes gennych un o'r canlyniadau profion genetig a restrir ar gyfer yr astudiaeth hon, a fyddai unrhyw bryderon gennych am eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio yn yr astudiaeth hon trwy CDGDD, a pham?

- **Mae'r profion yn cynnwys:** Epilepsi, Clefyd Huntington, Syndrom Lynch, Hemocromatosis, Syndrom X Frau, Niwrofibromatosis Math 1, Canser y Fron Etifeddol (BRCA1 a BRCA2)
- Roedd barn gadarnhaol gyffredinol a dim pryderon mawr, gan y gallai hyn godi ymwybyddiaeth o'r cyflwr a denu cefnogaeth
- Roedd rhai pryderon am ddiogelwch, trin a storio data personol a genetig e.e. faint o hanes sy'n cael ei roi ynglŷn â'r profion hyn, data daearyddol fel codau post.
- Gall ymwybyddiaeth o fodolaeth yr astudiaeth hefyd godi pryderon ehangach ynghylch cronfa ddata CDGDD a pha mor ddiogel y mae'n gallu storio data
- Codwyd eglurder ar fynediad ymchwil, diben, a defnydd o ddata a chronfa ddata CDGDD, codio cyflyrau genetig os ydynt yn newid, a sicrhau cyfrinachedd cleifion
- Dylid ystyried y byddai gan rai cleifion resymau personol dros beidio â rhannu data. Efallai y bydd llawer yn breifat am eu diagnosis tra bod rhai cleifion yn gyfforddus â rhannu eu data ac yn gallu gweld manteision yr astudiaeth
- Codwyd potensial ethnigrwydd yn ffactor yn yr astudiaeth hefyd

O ystyried bod cofnodion iechyd diennw eisoes ar gael ar gyfer ymchwil trwy CDGDD (heb ganiatâd), a allwch chi feddwl am unrhyw resymau pam y byddai rhywun sydd ag un o'r canlyniadau genetig a restrir yn gwrthwynebu cymryd rhan yn yr astudiaeth hon, a pham?

- Nid yw'r nodau yn yr astudiaeth yn codi pryder gan fod data blaenorol yn cael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, rhai materion posibl yw:

Bwrdd Seinio Partneriaeth Genomeg Cymru (PGC) Ymgynghoriad y Gwanwyn 2025

- Diffyg ymwybyddiaeth o CDGDD a storio data ac efallai y bydd angen rhoi sicrwydd i bobl ar y defnydd o CDGDD a data wedi'i storio
- Gall cleifion â straen/gorbryder a/neu ystyriaethau seicolegol boeni yn sylweddol am eu data yn cael ei rannu/datgelu i sefydliadau, teuluoedd neu gyflogwyr penodol a'r goblygiadau
- Dylai cleifion ddod o dan y ddeddf cydraddoldeb – dylai fod addasiadau rhesymol ar gyfer pethau fel cyflogaeth ac ati. Fodd bynnag, nid yw rhai pobl yn ymwybodol o hyn
- Efallai bod rhai cleifion eisoes wedi bod yn rhan o ymchwil helaeth ac efallai na fyddant eisiau cymryd rhan mewn mwy o astudiaethau
- Mae data a chanlyniadau'r astudiaethau yn cael eu cyhoeddi a fyddai wedyn yn cael eu hysbysebu trwy CDGDD, gwefan ac ati.

Yn eich barn chi, a oes gwahaniaeth rhwng sut y dylid trin data gofal iechyd arall a chanlyniadau genetig?

- Ni ddylid trin data gofal iechyd arall yn wahanol i ddata genomig, gan y gall data gofal iechyd arall gynnwys geneteg beth bynnag
- Dylai'r ffordd y cyflawnir arfer da fod yn safonol ac yn gyson ledled Cymru gyfan – gan gynnwys trin data
- Dylid coladu data trwy ddull proffesiynol
- Mae angen ymgysylltu adeiladol, yn enwedig i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, a mwy o addysg am eneteg ar gael mewn amgylcheddau gwasanaeth gofal sylfaenol ar gyfer staff a chleifion

Grwpiau Trafod 3 a 4:

Mae gwneud data clinigol (gan gynnwys canlyniadau genetig) ar gael yn ddienw ar gyfer ymchwil (trwy CDGDD) yn cyfrannu at fwy o wybodaeth a gwelliannau posibl i ofal iechyd yn y dyfodol.

A ydych chi'n cytuno â'r datganiad hwn? A oes unrhyw ystyriaethau y dylid eu hystyried wrth wneud hyn?

- Cytuno â'r datganiad os oes gwarant o anonymeiddio, ac eglurder rhwng data genomau cyfan a rhannu data genetig mwy penodol (e.e. canlyniad profion ar gyfer cyflyrau penodol)
- Dylid bod yn glir ar ba ganlyniadau genetig a fyddai'n cael eu hadolygu a gwneud datganiadau yn fwy concrit ac yn fwy hygyrch
- Mae angen mwy o eglurder ar beth yw CDGDD, a mwy o wybodaeth am sut mae'n gweithredu. O bosibl dylid cynnwys dadansoddiad i gleifion gan gynnwys dolenni ac eglurhad ynghylch yr iaith a ddefnyddir – dylid ymhelaethu ac egluro beth yw data genetig a chlinigol

Mae'r cyfle i dynnu'n ôl o'r broses ar gael i unigolion ond gall hyn gael effaith ar rai amcanion ymchwil (os yw aelodau o'r boblogaeth wedi dewis peidio â chael eu cynnwys) felly rydym am annog pawb i gael eu data ar gael. Beth allwn ni ei wneud i leihau nifer y bobl sy'n dewis tynnu'n ôl?

- Mae'n bwysig bod yn dryloew gyda phobl a'u hysbysu'n llawn bod eu data yn cael ei ddefnyddio

Formatted: Font: Bold

Bwrdd Seinio Partneriaeth Genomeg Cymru (PGC) Ymgynghoriad y Gwanwyn 2025

- Dylid defnyddio ffeithlun/gwybodaeth glir fel bod pobl yn cael eu hysbysu'n glir ynghylch sut mae eu data yn cael ei ddefnyddio
- Dylid sicrhau bod pobl yn ymwybodol ac yn deall beth yw profion DNA a genetig i wneud yn siŵr eu bod yn gwybod sut mae eu data yn cael ei ddefnyddio. Gellid ceisio ymgrychu ymhellach fel taflenni trwy ddrysau i ysgogi ymwybyddiaeth
- Dylid ystyried archwilio ffordd o gael cleifion i gydsynio/optio i mewn cyn profi fel nad ydynt yn optio allan ar ôl profi
- A ellir cymryd camau pellach i estyn allan at gleifion sydd â llai o fynediad at y rhyngwrwyd neu i gael mynediad at yr wybodaeth hon, neu gysylltu â chymunedau penodol sydd â mwy o siawns o brofi clefydau genetig penodol?
- Mae gan unigolion hawl i dynnu'n ôl – ond dylid defnyddio iaith sy'n annog pobl i gymryd rhan a pharhau i fod 'wedi ymrwymo'
 - Dylid codi ymwybyddiaeth, gan geisio cynnwys straeon bywyd go iawn a chael "arwyr" genynnau
 - Awgrym y dylid defnyddio 'wedi ymrwymo/ dynnu'n ôl' ar blatfform/rhyngwyneb sy'n hawdd ei gyrraedd
 - Dylid hysbysu'r cyhoedd am sut y mae'r wybodaeth hon i'w defnyddio, gan gynnwys disgrifio'r amcanion ymchwil a'u heffaith bosibl yn y dyfodol
 - Dylid addysgu pobl i ddeall beth yw'r canlyniadau genetig a pham y gall helpu – ymwybyddiaeth gyffredinol y cyhoedd (cyfryngau cymdeithasol), poster mewn meddygyfeydd/ysbytai/mannau cymunedol, a ffeithluniau ynghylch sut y gall data poblogaeth helpu gyda chynnydd mewn meysydd eraill
 - Cydnabyddiaeth gyhoeddus i ddiolch i gleifion a chydnabod cymorth cleifion i gyflawni nodau (fel usemydata.org)
- Diweddariad ar statws sut mae data yn cael ei ddefnyddio, nid peidio â rhoi unrhyw wybodaeth i gleifion, hyd yn oed os mai ond diweddariadau rheolaidd ydyw, gan dynnu sylw at beth yw budd rhannu'r data hwn

Pe baech chi'n gyfranogwr lle mae eich data genetig wedi'i gynnwys yn CDGDD ar gyfer yr astudiaeth benodol hon, sut fydddech chi'n teimlo pe bai'r data dienw hwnnw'n cael ei ddefnyddio mewn astudiaethau eraill heb i chi gael eich gwneud yn ymwybodol, a pham?

- Yn barod i gydsynio i roi eu data, gan eu bod yn deall pwysigrwydd yr wybodaeth hon a byddent yn hapus i'w rhoi i helpu a gyrru gwelliant a sicrhau bod mwy o bobl yn cael mynediad at brofion genetig
- Mae'n bwysig addysgu'r cyhoedd ar beth yw anonymeiddio a beth mae'n ei olygu iddyn nhw. Esboniad o sut mae anonymeiddio yn digwydd ac yn diogelu gwybodaeth bersonol
- Bydd tryloywder yn allweddol, gan gynnwys deall y gellid rhannu data ar gyfer astudiaethau a beth allai'r astudiaethau fod
- Dylid bod yn glir am yr hyn y mae cleifion yn cydsynio iddo. Os nad yw hyn yn glir, gallai niweidio ymddiriedaeth ac enw da yn y dyfodol
- Yn ymwybodol na fyddai llawer o bobl yn siŵr felly mae'n bwysig gwneud pobl yn ymwybodol bod eu data yn cael ei ddefnyddio, ac y gallant dynnu'n ôl
- Dylid bod yn agored ac yn onest. Gwell i gleifion wybod o'r dechrau sut y gellir defnyddio/rhannu'r wybodaeth hon

Bwrdd Seinio Partneriaeth Genome Cymru (PGC) Ymgynghoriad y Gwanwyn 2025

- Amwysedd yn yr hyn y mae "astudiaethau eraill" yn ei olygu. Byddai'r rhan fwyaf o bobl (os nad pob un) yn hapus i archwilio gwybodaeth yr astudiaeth hon am fynediad at brofion genetig a'i gwneud ar gael i bawb, ond efallai y bydd mwy o ddryswch ynglŷn â'r hyn y mae astudiaethau eraill yn ei olygu
- Dylid amlygu a yw'r astudiaeth wedi'i chymeradwyo gan Bwyllgor Cyngori ar Gyfrinachedd

Diweddariad Bwrdd PGC

Arweinwyr y sesiwn: Sarah Milosevic, Georgina Ferguson-Glover (aelodau Bwrdd Llywodraethu PGC)

Rhannodd Sarah a Georgina ddiweddariadau gan Fyrdau PGC, gan gynnwys:

- **Arddangosfa Genomeg:**
 - Bydd hyn yn codi proffil gweithgareddau genomeg yng Nghymru, yn cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd, ac yn hyrwyddo potensial genomeg
 - I'w chynnal yn bersonol yng Ngwanwyn 2026
 - Mae gormod o gost i ymgymryd â dull hybrid, ond efallai y byddwn yn gallu recordio sgysiau ac ati a'u gwneud ar gael wedyn
 - Bydd yn ddigwyddiad ar raddfa fawr gydag ystod eang o randdeiliaid/partneriaid, a pharthau ar gyfer grwpiau rhanddeiliaid
 - Gellid cynnwys y Bwrdd Seinio ar y diwrnod, yn rhan o'r pwyllgor cynllunio, poster, stundin, neu siarad yn y digwyddiad
 - Syniadau eraill a gyflwynwyd trwy Mentimeter, a oedd yn cynnwys: siarad am brofiadau, gweithgareddau rhyngweithiol, sesiynau rhwydweithio, siarad am brofiadau ar y bwrdd ac mewn bywydau personol, portreadau pen
- **Gŵyl Genomeg 2026**
 - Ystyriwyd presenoldeb y Bwrdd Seinio yn nigwyddiad Gŵyl Genomeg 2025 yn gadarnhaol, ac yn rhywbeth y dylid ei annog yn y dyfodol
 - Dylem archwilio opsiynau ar gyfer galluogi mwy nag un aelod o'r Bwrdd Seinio i fynychu, os yn bosibl, o ystyried y gost sy'n gysylltiedig ag ef
 - Bydd PGC yn rhannu mwy o wybodaeth am y digwyddiad fel y gall aelodau'r Bwrdd Seinio awgrymu presenoldeb a chyfranogiad
 - Bydd dull cynhwysfawr o gynllunio a chyfathrebu, a bydd PGC yn sicrhau bod aelodau'r Bwrdd Seinio yn cael eu cynnwys yn y broses honno
- **Canolfan Gwyddorau Bywyd Cymru yn trafod deallusrwydd artifisial mewn gofal iechyd**
 - Mae deallusrwydd artifisial eisoes yn cael ei ddefnyddio mewn dadansoddi pelydr-X, colonosgopi, patholeg mewn biopsiau gastrig, ac optimeiddio cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol
- **Cynllun Ffarmacogenomeg Cymru**
 - Mae Sophie Harding yn gweithio gyda PGC a rhanddeiliaid ehangach i ddatblygu cynllun tair blynedd sy'n anelu at ymgorffori ffarmacogenomeg mewn ymarfer clinigol arferol a chodi ymwybyddiaeth o ddefnyddio ffarmacogenomeg ar draws gofal iechyd
- **Presenoldeb PGC ar y cyfryngau cymdeithasol**
 - Yn weithredol ar Facebook a LinkedIn ar hyn o bryd ond nid Twitter/X

Bwrdd Seinio Partneriaeth Genomeg Cymru (PGC) Ymgynghoriad y Gwanwyn 2025

- Mae lle i ymuno â TikTok a BlueSky
- Roedd syniadau ar gynnwys posibl ar y cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys cwestiynau cyflym, profiad bywyd, a chwalu mythau
- Awgrym i ddefnyddio negeseuon digidol ar drenau a bysus fel ffordd ychwanegol o gyflwyno ein neges
- **Caffi Genomeg Pobl Ifanc**
 - Mae Parc Geneteg Cymru yn edrych ymlaen at gynnal cyfarfod Grŵp Cynghori ar Bobl Ifanc
 - Mae'r sgysiau wedi'u dylunio ar gyfer pobl ifanc 16–25 oed ond mae croeso i bawb ymuno

Defnyddiodd Sarah a Georgina Mentimeter hefyd i gasglu adborth gan aelodau'r Bwrdd Seinio a fydd yn cael ei rannu gyda Byrddau PGC.

- Cyfraniadau'r Bwrdd Seinio i PGC
 - Cydbwysedd, profiadau personol, safbwyntiau a barn, gwybodaeth, syniadau ar newidiadau, her – gwneud i bobl edrych ar bethau'n wahanol fel defnyddio termau gwyddonol, acronymau a gwneud yn siŵr bod y pethau sy'n cael eu trafod yn berthnasol i'r cyhoedd a phobl sy'n ymwneud â genomeg
- Beth mae bod yn aelod o'r Bwrdd Seinio'n ei gynnig i chi?
 - Cyfoethogi bywyd, cyfleoedd, balchder, gwybodaeth, hyder, ymrymuso, cymryd rhan ar lefelau ymchwil, llais yn bwysig, cymuned, cael fy nghlywed a'm deall, gwelededd, rhoi yn ôl i'r ymchwilwyr y mae eu hymchwyl yn fy nghadw yn fyw, ac ati.
- Profiadau gorau o fod ar y Bwrdd Seinio –
 - Mynychu cynadleddau a bod yn llais i'r Bwrdd Seinio, cyfarfodydd yn bersonol, dysgu gan eraill, cwrdd â ffrindiau newydd, fel aelodau staff, y fraind o weithio gyda chleifion, ymweld ag adeiladau, deall yr hyn sydd ar y ffordd

Diweddariad Rhwydwaith Cyn-fyfyrrwyr PGC

Arweinydd y sesiwn: Alice Frenken, Rheolwr Prosiect (PGC)

Canolbwyntiodd y sesiwn nesaf ar ddiweddaru'r Bwrdd Seinio am waith a oedd wedi digwydd ers Ymgynghoriad Mis Ionawr 2025, lle daethpwyd â chynlluniau ar gyfer y Rhwydwaith Cyn-fyfyrrwyr at yr aelodau i'w trafod i ddechrau.

Yn dilyn cyflwyniad byr, codwyd y pwyntiau trafod canlynol:

- Dylid datblygu mwy o gyfleoedd i'r rhai nad oeddent yn teimlo'n gyfforddus yn cyflwyno neu a allai fod yn dymuno gweithio 'yn y cefndir' e.e. cefnogi datblygu dogfennau, rhannu gwybodaeth/mentrau addysgol, adolygu polisi, ac ati.
- Gallai Cyn-fyfyrrwyr ysgrifennu nodiadau ar gyfer rhai o'r ystafelloedd trafod yn ystod ymgynghoriadau Bwrdd Seinio
- Rhennir yr holl gyfleoedd cynnwys â'r Cyn-fyfyrrwyr ac eithrio os ydym yn gofyn am aelodau'r Bwrdd Seinio'n benodol

Bwrdd Seinio Partneriaeth Genomeg Cymru (PGC) Ymgynghoriad y Gwanwyn 2025

- Amlinellwyd y broses o ymuno â rhwydwaith Cyn-fyfyrrwyr PGC. Bydd PGC yn anfon ffurflen i'w llenwi i'r rhai sydd â diddordeb mewn ymuno â'r Rhwydwaith Cyn-fyfyrrwyr. Gall Cyn-fyfyrrwyr aros yn y rhwydwaith cyhyd ag y dymunant. Os yw Cyn-fyfyrrwyr eisiau gadael y Rhwydwaith Cyn-fyfyrrwyr, gallant roi gwybod i PGC a bydd eu gwybodaeth yn cael ei dileu

Cyfeiriadur Profion – ateb Cwestiynau Cyffredin

Arweinydd y Sesiwn: Sian Morgan, Pennaeth Labordy (Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan)

Arweiniodd Sian sesiwn gyntaf y prynhawn, gan ateb cwestiynau am y Cyfeiriadur Profion.

- Mae'r ffaith bod dilyniannu genomau cyfan yn y GIG yn Lloegr ar hyn o bryd yn cael ei ddarparu drwy gyfleuster Dilyniannu Genomau Cyfan (DGC) masnachol canolog (er eich bod hefyd wedi nodi bod y model profi hwn yn debygol o newid yn ystod y 12-18 mis nesaf) yn awgrymu bod gwasanaethau Genomeg yn Lloegr yn fwy datblygedig na'r rhai yng Nghymru. A ydych chi'n meddwl bod hyn yn wir?** O'r hyn a ddywedoch, rwy'n gobeithio y bydd cleifion yng Nghymru yn fuan yn gallu elwa o brofion drwy'r rhwydwaith hwn gan fod y gwasanaeth yn swnio'n gynhwysfawr ac yn drylwyr iawn
 - Amserlen dilyniannu genomau cyfan:
 - Yn 2015, gellir nodi genynnau lluosog mewn un prawf ond nid oedd y dechnoleg i wneud hynny ar gael yn rhwydd tan 2019. Yn 2019, cyhoeddwyd y cyfeiriadur profion
 - Arweiniodd Strategaeth Genomeg Cymru 2017 at brynu NovaSeq 6000, ac roedd GGFCG yn un o dri sefydliad yn y DU i gael hyn
 - Yn 2020, cyflwynwyd DGC, a Chymru oedd y system gofal iechyd GIG gyntaf i gyflwyno DGC cyflym yn y DU. Yna dechreuodd cynnydd mewn DGC mewn labordai greu gallu a chapasiti i gynnwys profion ar gyfer plant ag anableddau cynhenid a meddyliol
 - Nid yw'n bosibl darparu pob prawf sydd ei angen yng Nghymru. Os nad yw'n bosibl cael mynediad at fath penodol o brawf yng Nghymru, bydd y profi yn mynd i rywle arall i sicrhau mynediad teg at brofi yng Nghymru yn unol â gofynion profi'r DU
 - Cael mwy o ymgysylltiad a chael mwy o sgysiau am ddod â DGC i gleifion o Gymru mewn labordai Lloegr (Caerwysg). Lloegr yn caffael ar draws labordai, modelau canolog yn stopio ym mis Mawrth 2026 felly, mae angen i ni aros i weld sut mae caffael yn mynd
 - Y nod bob amser yw cynyddu profi ac ehangu'r capasiti i ganiatáu DGC yng Nghymru. Buddsoddodd Llywodraeth Cymru mewn dilyniannwr arall a fydd yn cynyddu effeithlonrwydd wrth ddarparu gwasanaethau yn fewnol. Rydym mewn sefyllfa dda i gynyddu capasiti a phrofi
- A yw'r holl Fyrddau Iechyd wedi ymuno â'ch gwasanaeth ac a ydych chi'n hyderus bod cysondeb yn Strategaeth Ymchwil Genomeg De Cymru, Gorllewin Cymru, Canolbarth Cymru a Gogledd Cymru?**
 - Nid yw nifer yr achosion o glefydau wedi newid ond mae technoleg wedi newid, ac rydym yn gallu darparu mwy o atebion – rydym bellach yn gweld cynnyrch diagnostig

Bwrdd Seinio Partneriaeth Genomeg Cymru (PGC) Ymgynghoriad y Gwanwyn 2025

o tua 30-40% (h.y. 30-40 canlyniad sylweddol fesul 100 o unigolion) o gymharu â 5% o'r blaen

- o Mae profion yn cael eu darparu gan GGFCG ledled Cymru, ac ar draws ystod o lwybrau triniaeth cleifion

- **I ba raddau ydych chi'n uno gwasanaethau â'r rhai yn Lloegr? A ydych chi'n meddwl y byddai dull mwy cydweithredol yn creu mwy o fuddion i gleifion, neu a ydych chi'n ffafrio cynnal annibyniaeth i gadw mwy o reolaeth? Os mai'r olaf sy'n wir, a ydych chi'n gallu arbenigo eich gwasanaethau yn fwy penodol i anghenion poblogaeth Cymru ac a oes gennych unrhyw enghreifftiau o hyn?**

- o Mae'n bwysig ein bod yn darparu gwasanaethau sydd wedi mynd trwy broses adolygu a llywodraethu sy'n seiliedig ar werth. Gwerth y Cyfeiriadur Profion yw eu bod wedi mynd trwy broses lywodraethu ac adolygu tynn i ddeall gwerth i gleifion
- o Mae profion genomig bob amser yn brawf arbenigol. Mae hwn yn arbenigedd bach felly, llawer o weithio ledled y DU
- o Mewn papur yn 2022, dywedodd y Cydbwyllgor Comisiynu (CbC), os yw'r prawf wedi cael ei adolygu'n llym, dylai cleifion yng Nghymru gael mynediad at y profion hynny. Mae cyfle o hyd gyda'r CbC i gael sgysiau am ychwanegu profion perthnasol a gweithio'n agos gyda defnyddwyr clinigol i ddarparu'r hyn maent ei eisiau i'w cleifion

- **A ydych chi'n profi am gyflyrau penodol yn unig neu os yw'r profion dilyniannu genomau cyfan yn datgelu dangosyddion o gyflyrau genetig posibl eraill - a fyddai hyn yn cael ei gyfathrebu i rieni'r plentyn?**

- o Mae'r profion yn cael eu dewis yn benodol iawn ar gyfer lle mae amheuaeth glinigol. Heriau Clefydau Prin gyda llawer o resymau sy'n gorgyffwrdd, yn flaenorol byddem yn gwneud sawl prawf 'profi a methu' nes bod diagnosis yn cael ei ganfod. Mae Dilyniannu Cenhedlaeth Nesaf (DCN) yn galluogi clinigwyr i fwndelu genynnau i brawf a gwneud un prawf ond mae'n dueddol o fod yn unol ag arbenigedd/atgyfeiriad clinigol o hyd - dyma'r hyn rydym yn ei alw'n baneli genynnau.
- o Canoli DGC – gwneud prawf llawn ac wedyn panel ar gyfer genynnau y gofynnwyd amdanynt gan glinigwr. Nid oes rhaid ail-ddilyniannu os oes angen paneli pellach, yn helpu i sicrhau nad yw canfyddiadau anfwriadol yn cael eu codi / yn lleihau'r risg ohonynt, trefniadau gweithredu safonol a gweithdrefnau Llywodraethu ar adrodd canfyddiadau anfwriadol

- **A fydd ganddynt yr arbenigedd o gwmpas y DU os ydynt yn ei dynnu o Gaerwysg - a ydyn ni'n dibynnu ar Gaerwysg?**

- o Mae profion canolog yn GIG Lloegr yn cael eu cynnal yng Nghaergrawnt. Mae pob labordy genomig yn anfon ei samplau i Birmingham i'w platio, ac wedyn mae'r rhain yn cael eu hanfon i Gaergrawnt i'w dilyniannu, ac wedyn i Genomics England ar gyfer dadansoddiad biowbodeg. Mae'r system ganolog yn debygol o newid a bydd y contract gydag Illumina (sydd ar hyn o bryd yn darparu'r dilyniannu i'r samplau hyn) yn dod i ben yn 2026

Bwrdd Seinio Partneriaeth Genomeg Cymru (PGC) Ymgynghoriad y Gwanwyn 2025

- Mae labordy a gomisiynwyd yng Nghaerwysg sy'n rhedeg gwasanaeth brys i Loegr gan fod y system ganolog yn rhy araf
- Cyn belled â'ch bod yn derbyn ymateb cyflym ac nad oes gwahaniaeth, nid oes ots a yw dilyniannu yn cael ei wneud yng Nghymru neu yn Lloegr. Mae Ymgynghorwyr Genetig GGFCG wedi gweithio'n agos iawn gydag arbenigwyr yng Nghaerwysg ac nid oedd effaith ar ofal yng Nghymru
- **Beth yw eich gobeithion ar gyfer dyfodol genomeg?**
 - Mae mwy o ddatblygiadau yn cael eu gwneud ym maes cancer – mwy o brofion i alluogi meddyginiaethau wedi'u personoli, gyda ffarmacogenomeg yn cael effaith enfawr
 - Prif ffrydio/gweithlu wedi'i addysgu'n llwyr, a mwy o genomeg mewn systemau gofal iechyd
 - Cynyddu'r gyfradd ddiagnostig ar gyfer clefydau prin
- **A yw adolygu'n debyg i Ganllawiau NICE a sut ydych chi'n diffinio profion brys?**
 - Mae NICE fel arfer wedi'i alinio ar gyfer meddyginiaethau newydd ond gall fod yn berthnasol i dechnoleg hefyd. Mae arfarniad NICE yn cael ei gynnwys yn y Cyfeiriadur Profion yn awtomatig os yw profion genomeg wedi'u halinio ag ef.
 - Mae canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd a chanllawiau proffesiynol hefyd yn darparu mewnbyn a byddant hefyd yn cael eu cynnwys yn y Cyfeiriadur Profion
 - Profion brys - Po fwyaf hanfodol yw hi ar gyfer rheoli gofal clinigol, y mwyaf brys ydyw, er enghraifft sgrinio cyn-genï, triniaethau cancer sydd angen ffarmacogenomeg ar gyfer cemotherapi
- **A oes unrhyw brofion cyflwr genetig yr hoffech eu blaenoriaethu gan ddarparu profion mewnlol ar eu cyfer yn seiliedig ar anghenion gofal iechyd poblogaeth Cymru?**
 - Roedd gwasanaeth sgrinio penodol i Gymru ar gyfer Nychdod Cyhyrol Duchenne, ond nid yw hyn ar waith mwyach
- **Pa gyflyrau sy'n cael eu blaenoriaethu i'w hystyried - a yw'n seiliedig ar faint o bobl yr effeithir arnynt, difrifoldeb y cyflwr?**
 - Mae angen i ni ystyried defnyddioldeb clinigol, dilysrwydd, cost, ac ati. Mae meini prawf cryf i'w dilyn ar gyfer pob prawf a ddarperir

Formatted: Font: Bold

Strategaeth Ymchwil Genomeg - Diweddariad

Arweinydd y Sesiwn: Delyth Morgan, Pennaeth Ymchwil Gwyddorau Bywyd a Phartneriaethau'r Diwydiant (Ymchwil a Datblygu, Llywodraeth Cymru)

Dolen i'r cyflwyniad: <https://youtu.be/GKksvCzdbc0>

Rhoddodd Delyth ddiweddariad ar y Strategaeth Ymchwil Genomeg. Dechreuodd y cyflwyniad gyda chyflwyno'r strategaeth yn fyr, ac wedyn adborth a dderbyniwyd, ac wedyn y camau nesaf.

Bwrdd Seinio Partneriaeth Genome Cymru (PGC) Ymgynghoriad y Gwanwyn 2025

- Mae gan Gynllun Cyflawni Genome Cymru ymrwymiad i ddatblygu Strategaeth Ymchwil Genome ar gyfer Cymru, a gweithiodd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a PGC gyda'i gilydd i gyflawni hyn.
- Cynullwyd Grŵp Adolygu Ymchwil Genome (GAYG) i gasglu gwybodaeth am ymchwil genomeg yng Nghymru. Roedd hyn yn ategu ymarfer caffael a gynhaliwyd gan IQVIA a benodwyd i helpu i ddatblygu gwybodaeth gefndir ar gyfer y strategaeth
- O'r GAYG, sefydlwyd gweithgor bach i ddrafftio a chwblhau'r strategaeth, gyda chyfarfodydd wedi'u cynnal dros yr haf yn 2024. Mae'r cynllun drafft bellach mewn cyfnod ymgynghori – [Strategaeth Ymchwil Genome](#)
- Cafwyd cymeradwyaeth ar gyfer y ddogfen gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (YIGC), PGC, Sefydliadau Addysg Uwch Cymru, y Bwrdd Seinio Cleifion a'r Cyhoedd
- Mae adborth o ymatebion ar-lein wedi bod yn gefnogol ar y cyfan, gyda'r sylwadau canlynol:
 - Mae angen ymrwymadau cadarnach ar gamau gweithredu, gydag eglurder ar sut i fesur cynnydd ac amserlenni penodol
 - Canolbwyntio ar adeiladu cydweithrediadau gyda phrifysgolion Cymru/y DU, y GIG, a grwpiau hanfodol eraill
 - Cydweithio â Llywodraeth Cymru a chyrrff cyllido i adeiladu prosiectau ymchwil sy'n anelu at weithio i gleifion Cymru
 - Cyfieithu technegau ymchwil arloesol ar gyfer adrodd amrywiolion diagnostig, i'r clinig er budd uniongyrchol i gleifion
- Y Camau Nesaf:
 - Cwblhau'r casgliad o adborth ar-lein
 - Mynd ar drywydd unrhyw gwestiynau sy'n dod yn ôl o'r broses ymgysylltu ac ymgorffori adborth yn y ddogfen
 - Coladu cymeradwyaethau a chyflwyniad
 - Gwahodd Datganiadau o Ddiddordeb gan unigolion sydd â diddordeb yn y swydd arweinyddiaeth
 - Gweithio gyda'r tîm cyfathrebu ar gyfer cyflwyniad
 - Cyfieithu a chyhoeddi Cynllun
- Mae Prif Weinidog Cymru yn awyddus i gychwyn momentwm, gan wella canlyniadau i gleifion yng Nghymru. Bydd y strategaeth yn digwydd gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, ac efallai y bydd rhagair gan y Prif Swyddog Meddygol yn berthnasol
- O ran meysydd nad ydynt yn cael eu hystyried yn gryfder yng Nghymru, pa gymorth a fydd yn cael ei roi i gleifion sy'n byw yng Nghymru sydd â chyflyrau cysylltiedig?
 - Bydd y strategaeth yn cael ei defnyddio i hysbysebu cryfderau ymchwil ac amlygu'r rhain ond nid yw'n eithrio meysydd eraill
 - Rydym am gynyddu mynediad at dreialon clinigol ledled y DU a sicrhau ein bod yn cydweithio ledled y DU.

Rhaglen PGC – Diweddariadau

Arweinwyr y Sesiwn: Michaela John, Pennaeth Rhaglen, a Nicholas O'Sullivan, Rheolwr Rhaglen (PGC)

Bwrdd Seinio Partneriaeth Genomeg Cymru (PGC) Ymgynghoriad y Gwanwyn 2025

Daeth y diwrnod ymgynghori i ben gyda'r diweddariadau gan Swyddfa'r Rhaglen gyda Michaela a Nick yn trafod prif ffrydio, recriwtio i'r Bwrdd Seinio, a chyfleoedd cynnwys sydd ar ddod.

- **Diweddariad ar brif ffrydio**
 - Ymrwymiad i alinio'r Cyfeiriadur Profion â Lloegr
 - Cynyddu ymwybyddiaeth o genomeg ymhlith gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'u huwchsgilio
 - Deall ble rydyn ni a mynd â hyn ymlaen
 - Bydd gan y Bwrdd Seinio rôl i'w chwarae yn y camau nesaf, pan fydd gennym fwy o wybodaeth sylfaenol
- **Recriwtio i'r Bwrdd Seinio**
 - Bydd YIGC yn cynnal y cais ar eu gwefan
 - Bydd cyfweiliadau'n cael eu cynnal yng nghanol mis Mehefin, a bydd PGC yn cysylltu ag aelodau i gael Datganiadau o Ddiddordeb am gael eu cynnwys mewn paneli cyfweld
 - Mae gan y proffil rôl rai diweddariadau bach e.e. dyddiadau, ymgynghoriadau. Ar wahân i hynny, nid oes llawer o amrywiaeth o'r llynedd. Rhannwyd sylwadau a meddyliau ar y proffil rôl ac mae croeso i'r rhain gael eu cyflwyno trwy e-bost hefyd. Roedd y sylwadau wedi'u rhannu'n cynnwys:
 - Dechrau mewn ffordd fwy diddorol i wneud yr hysbyseb yn ddiddorol ac yn gyffrous
 - Symud yr adran cymorth e.e. "diwrnodau hyfforddiant" ym mharagraffau cyntaf y ddogfen
 - Tagio clefydau prin fel enghreifftiau yn hytrach na'u manylu
 - Nodi bod mentor ar gael
 - Pwysleisio diddordeb mewn genomeg yn hytrach na phrofiad/gwybodaeth benodol
 - Diweddarau hyd y cyfnod/asesiad canol tymor
 - Ystyried cyfeirio at e-ddysgu
 - Darparu geirfa o acronymau
- **Cyfathrebu**
 - Mae rhifyn newydd o gylchlythyr PGC bellach ar gael a gellir ei ddarllen [yma](#)
 - Cyfleoedd cynnwys sydd ar ddod:
 - Cynhadledd Gwyddor Gofal Iechyd, Llandudno – 15 - 16 Mai 2025
 - Cynhadledd Cyd-gynhyrchu Genedlaethol, Caerdydd – 21 Mai 2025
 - Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Parc Margam – Mai 2025
 - Arddangosfa Cynnwys y Cyhoedd a'r Cleifion Ysgol Feddyginiaeth Prifysgol Caerdydd - 18 Tachwedd 2025
 - Caffis Genomeg
 - Arddangosfa Genomeg

Cyfarfodydd nesaf

Edrychwn ymlaen at eich gweld yn ein hymgyngoriadau nesaf ar **ddydd Iau 3 Gorffennaf 2025** (ar-lein), a **dydd Iau 16 Hydref 2025** (hybrid).